

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 8fed o Hydref 2020

Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Datgan buddiant
4. Derbyn cofnodion 10fed o Fedi 2020
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Materion ariannol
 - a. Is Bwyllgor Cyllid 07-10-20
7. Archwilwyr allannol
8. Materion y Clerc
9. Materion y Cyngorwyr
 - a. Cyng D W Jones Llwybra Ysgol Treborth
 - b. Cyng M Baines Cais Cynllunio ar Parc Menai
 - c. Cyng M Lynch Gwerthiant Tafarn y Faenol

Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 10fed o Fedi 2020

1. Presennol: Cyngorwyr D. Jones-Morris; M. Lynch; E. Jones; B. Jones a Mr. J Lewis
2. Ymddiheuriadau: Cyngorwyr L A James; J. Griffiths; H Griffiths; T A Williams; M. Baines; J. Pierce; D. W. Jones.
3. Ethol Cadeirydd – Cafodd y Cyng D Jones-Morris ei ethol i'r gadair ag offrymodd Weddi
 - Datgan buddiant – Tae unrhyw un angen datgan buddiant byddai rhaid gwneud hynny ar lafar i'r Clerc allu ei gofnodi – Ni fu datganiad
4. Cyfethol i ward Glasinfryn Wedi
dilyn y broses cyfethol 'roedd enw Mr John Lewis wedi dod ymlaen. Ar gynnig
Cyng M Lynch gafodd ei eilio gan Cyng E Jones cafodd Mr Lewis ei gyfethol yn unfrydol i sedd
wag Ward Glasinfryn. Croesawodd y Cadeirydd
Cyng Lewis i'r Cyngor
5. Derbyn cofnodion 13eg o Awst 2020 – Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir
6. Materion yn codi o'r cofnodion
 - Stad Redrow Dim ychwanegol i'w adrodd ar hyn o bryd
7. Materion ariannol
 - Is Bwyllgor Cyllid Roedd y mantolen ariannol wedi ei anfon allan yn electronig i bawb yn dangos y balansau yn y ddau gyfrif
 - 'Roedd yr IBC wedi ystyried y prosiectau isod
 - i. Cae Chwarae Cerhun Er fod archwyliad RoSPA ddim wedi dagrafod unrhyw risg uchel gofynwyd i'r Clerc chwilio am amcanbris ail deilsio aadnewyddu cadwyni yn swings
 - ii. Lon Glasinfryn Cyng M Baines wedi cael cwyn ynglyn a chyflwr y ffordd yn arwain tuag at Maes Parcio y Ganolfan ag ymlaen i gyfeiriad y llwybr cyhoeddus. Y mater yma wedi cael ei drafod mewn eitha manylder yn 2014 ond am rhyw reswm dim wedi digwydd i'w adnewyddu Clerc i edrych i mewn gan gychwyn hefo Gamlins
 - iii. Blodau gwyllt Ni fu'r tywydd yn ffarfriol iawn i hadu yn ystod sychdwr y gwanwyn a chyn y clo plandemig. Argymell edrych at hadu gwanwyn 2021 yn hytrach na hadu'r Hydref yma
 - iv. Cysgodfan Nant y Mownt yn dilyn gwrthwynebiad munud olaf ni fu posib gosod hon cyn diwedd y flwyddyn ariannol dwaetha. Oherwydd yr angen i drafod ail-leoli hefo Cyngor Gwynedd ag oherwydd y pandemig ni fu posib symud hwn ymlaen - Ail afael yn y prosiect pan fydd canllawia yn caniatau
8. Archwilwyr allannol
Y Clerc wedi anfon popeth oedd ei angen at BDO ond heb glywed dim yn ol
9. Materion y Clerc 'Roedd
Cynnig Cyngor Cymuned Llanllyfni
y Clerc wedi anfon ymlaen lythyr dderbynwyd oddiwrth Clerc Cyngor Cymuned Llanllyfni yn gofyn am gefnogaeth i'w cais i alw ar Arweinydd Cyngor Gwynedd i alw cyfarfod yn Siambr Cyngor Gwynedd i drafod ffyrdd gall cymunedau fanteisio/elwa a'r y niferoedd o ymwelwyr sy'n ymweld a'r ardal yma yn enwedig ardal Eryri
10. Materion y Cyngorwyr

- Cyng M Baines Cais newydd Deintyddfa yn Parc Menai Er
gwybodaeth adroddwyd i Gyngor Gwynedd wrthod caniatáu cais cynllunio ar gyfer
Deintyddfa ar Parc Menai. Byddai cais newydd yn cael ei gyflwyno. Gofynnodd am
gefnogaeth i'r cais hwnnw
- Cyng M Lynch Gwerthiant Tafarn y Vaynol Arms Pentir ag ymgais trigolion lleol i edrych
ar y posibilrwydd ei phrynu Datgelwyd fod y
dafarn lleol yn Pentir yn cael ei gwerthu gan y bradgy a chriw lleol yn bryderus tae yr
adeilad yn cael ei golli fel hwb yn y gymuned.
Cytunodd Cyng M Lynch i gynrychioli Gyngor Pentir ar y Grwp
Cytunwyd gyda mwyafrif y byddai'r Gyngor mewn egwyddor yn cefnogi y fenter leol
mewn unrhyw fodd fyddai'n bosib
- Cyng J Griffiths Sbwriel Ion Penhower
Nodwyd fod y mater hwn wedi ei adrodd i'r Gyngor fis yn ol ond fod y bagiau yn dal yno
Clerc i gysylltu unwaith eto
- Cyng E Jones Hawl trigolion ar Dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Glan Menai
Adroddwyd fod arwyddion yn datgan fod y llwybr uchod ar agor yn cael eu tynnu lawr
gan, o bosib, perchnogion y tir sydd rhaid ei groesi i gyrraedd at y llwybr a bod hyn yn
gamarweiniol ag achosi pryder i gerddwyr lleol.
Clerc i gysylltu hefo'r adran tramwyo

Daeth y Cyfarfod i ben 8.30

